# Cyngor Caerdydd

# Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2019/20



**CYNNWYS**


| | |
|---|---|
| **Cwmpas Cyfrifoldeb** | **Tudalen 3** |
| **Diben y Fframwaith** | **Tudalen 3** |
| **Y Fframwaith Llywodraethu** | **Tudalen 4** |
| **Y Broses Asesu a Chrynodeb** | **Tudalen 4** |
| **Datganiadau Sicrwydd** | **Tudalen 5** |
| • **Datganiad yr Uwch Dîm Rheoli** | **Tudalen 5** |
| • **Datganiad y Rheolwr Archwilio** | **Tudalen 6** |
| • **Datganiad y Pwyllgor Archwilio** | **Tudalen 7** |
| **Fframwaith Llywodraethu : gwybodaeth ategol** | **Tudalen 9** |
| **Cynllun Gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol** | **Tudalen 25** |
| **Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg** | **Tudalen 26** |
| **Tystysgrifau** | **Tudalen 27** |

## Cwmpas Cyfrifoldeb

1. Mae Cyngor Dinas Caerdydd (y Cyngor) yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrif amdano'n gywir, a'i defnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol. Wrth gyflawni ei gyfrifoldeb cyffredinol, mae'r Cyngor yn gyfrifol am roi ar waith drefniadau i lywodraethu ei fusnes, a hwyluso'r gwaith o gyflawni ei swyddogaethau, gan gynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg.

2. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am Awdurdod Harbwr Caerdydd. Y Cyngor yw'r Awdurdod Gweinyddu ar gyfer Cronfa Bensiwn Caerdydd a'r Fro (y Gronfa Bensiwn) ac Awdurdod Iechyd Porthladd Caerdydd (AIPC) ac ef yw'r Corff Atebol ar gyfer Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Dogfennir y trefniadau llywodraethu a ddisgrifir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (AG) wrth ystyried meysydd cyfrifoldeb y Cyngor, ac i ba raddau y mae'r Cyngor yn gyfrifol am lywodraethu.

3. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r fframwaith 'Darparu Llywodraethu Da yn Llywodraeth Leol' a ddatblygwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA) a Chymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch Reolwyr yr Awdurdodau Lleol (SOLACE). Mae'r datganiad hwn yn esbonio sut mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r Fframwaith Llywodraethu a hefyd sut mae'n bodloni gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwiliadau (Cymru) 2014, fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwiliadau (Cymru) (Diwygio) 2018.

4. Mae gan Gyngor Caerdydd berchenogaeth lwyr ar dri is-gwmni a oedd yn masnachu yn 2019/20, un ohonynt yw Cardiff City Transport Services Ltd. Newidiwyd trefniadau llywodraethu (Bws Caerdydd) a nodir y newidiadau hyn ym mharagraff 74. Hefyd mae gan y Cyngor fuddiant mewn cyfrwng at ddiben arbennig (CSC Foundry Limited) a lywodraethir gan Gydbwyllgor ar gyfer Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

### Diben y Fframwaith Llywodraethu

5. Mae'r Fframwaith Llywodraethu'n cynnwys y systemau, y prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd y mae'r Cyngor yn cael ei gyfeirio a'i reoli ganddynt, ynghyd â'r gweithgareddau a ddefnyddia i fod yn atebol i'r gymuned, ymgysylltu â hi a'i harwain. Mae'n galluogi'r Cyngor i fonitro'r gwaith o gyflawni ei amcanion strategol ac ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau priodol, cost-effeithiol. Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi sut y gwneir penderfyniadau a'r gweithdrefnau a ddilynir trwy gyfrwng rheolau, codau, ymarfer a phrotocolau.

6. Mae'r system rheoli fewnol yn rhan sylweddol o'r fframwaith hwnnw ac fe'i dyluniwyd i reoli risg i lefel resymol. Ni all ddileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau; nodau ac amcanion ond mae'n broses barhaus o nodi, blaenoriaethu a rheoli risg yn briodol.

7. Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol yn dogfennu sut rydym yn cymhwyso egwyddorion llywodraethu da (fel y'u crynhoir yn Adran 4 y DLIB – Proses

Asesu a Chrynodeb). Cymeradwywyd y Cod hwn yng nghyfarfod Pwyllgor y Cyfansoddiad ar 11 Chwefror 2019 ac mae wedi'i gynnwys yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

**Y Fframwaith Llywodraethu**

8. Mae'r Fframwaith yn cynnwys dwy egwyddor graidd a phum egwyddor ategol. Mae egwyddorion A a B yn treiddio i egwyddorion C i G ond mae llywodraethu da yn ddeinamig ac mae'r Cyngor ar y cyfan wedi ymrwymo i wella llywodraethu yn barhaus trwy broses arfarnu ac adolygu.

***Egwyddorion craidd:***

a. Ymddwyn â gonestrwydd, dangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesol a pharchu rheolaeth y gyfraith.
b. Sicrhau ymgysylltiad agored a cynhwysfawr â'r rhanddeiliaid Egwyddorion Ategol:

Egwyddorion Ategol

c. Diffinio canlyniadau o ran buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy
ch. Penderfynu pa ymyriadau sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni cymaint o'r canlyniadau a fwriedir â phosibl
d. Datblygu capasiti'r corff, yn cynnwys gallu ei dîm arwain a'r unigolion sy'n rhan ohono
dd. Rheoli risgiau a pherfformiad trwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gadarn
e. Rhoi arferion da ar waith yn ddidwyll, adrodd ac archwilio er mwyn cynnig atebolrwydd effeithiol

**Y Broses Asesu a Chrynodeb**

9. Mae'r DLIB yn crynhoi'r asesiad o'r llywodraethu yn erbyn y fframwaith llywodraethu ac mae'n cynnwys tair elfen:

1 Datganiadau gan yr Uwch-reolwyr, y Rheolwr Archwilio a'r Pwyllgor Archwilio
2) Dadansoddiad ategol a gysylltir â'r craidd yn ategu egwyddorion llywodraethu da sy'n cynnig barn sy'n seiliedig ar wybodaeth ategol a thystiolaeth.
3) Barn yr Uwch Dîm Rheoli ar broblemau llywodraethu sylweddol y Cyngor


10. Mae'r tair elfen uchod o'u hystyried gyda'i gilydd yn asesiad o'r llywodraethu o safbwynt yr Uwch Dîm Rheoli a barn ar wahân y Rheolwr Archwilio Mewnol a'r Pwyllgor Archwilio ar sail eu rhaglenni gwaith nhw ac asesiad o'r system reoli fewnol.

11. Am ragor o wybodaeth a manylion; mae'r wybodaeth ategol wedi'i chysylltu ag egwyddorion (ag) y fframwaith llywodraethu yn yr DLIB ac yna ceir datgeliad agored gan yr Uwch Dîm Rheoli ynghylch y materion llywodraethu sylweddol

sy'n effeithio ar y sefydliad fel camau gweithredu dros dro i'w rhoi ar waith a mynd i'r afael â nhw.

12. Mae'r diagram yn ffig. 1 yn dangos cydrannau'r asesiad hwn.

**Ffig 1.**




**Datganiadau Sicrwydd**

13. Gwneir y datganiadau canlynol ar ddiwedd y flwyddyn wrth ystyried y wybodaeth ynghylch perfformiad, datgeliadau ac archwiliadau llywodraethu a chanfyddiadau'r adroddiadau rheoliadol gan aseswyr mewnol ac allanol y Cyngor.

**Datganiad yr Uwch Dîm Rheoli**

14. Fel Uwch Dîm Rheoli rydym wedi parhau i ddefnyddio ymarfer hunanasesu fel prif ddull o fesur ein ffordd o lywodraethu'n dda, a nodi materion i'w gwella. Bu'n rhaid i ni addasu'r broses arferol, lle caiff ein hunanasesiad ei lywio gan asesiad Datganiad Sicrwydd canol blwyddyn a diwedd y flwyddyn ddilynol yr Uwch Reolwyr. Eleni er mwyn galluogi'r rheolwyr i ganolbwyntio ar ymateb y Cyngor i argyfwng Covid 19, ni wnaethom gwblhau'r adolygiad SMAS diwedd y flwyddyn, a drefnwyd ar gyfer mis Ebrill 2020. Ar ddechrau pandemig Covid 19 ym mis Mawrth 2020, yn dilyn cyfnod o gynllunio a chydlynu uwch, rhoddodd y Cyngor ei drefn rheoli digwyddiadau ar waith a chyfarfu'r Uwch Dîm Rheoli bob dydd am yr wyth wythnos gyntaf, gan symud yn raddol i amserlen o gyfarfod deirgwaith yr wythnos. Ffocws y cyfarfodydd hyn oedd ystyried ymateb y Cyngor i'r argyfwng, sicrhau cydlyniad a sicrhau bod materion yn cael eu cofnodi a bod penderfyniadau clir yn cael eu gwneud o ran llywodraethu.

15. Ers mis Mawrth 2020, mae sylw Uwch Swyddogion wedi'i ganolbwyntio'n gadarn ar ymateb y Cyngor i'r argyfwng a chynnal trefniadau cyfathrebu, gwneud penderfyniadau a rheoli effeithiol. Cydnabyddir nad yw'r broses sicrwydd ar gyfer diwedd y flwyddyn ac wrth edrych ymlaen at 2020/21 wedi'i nodi yn unol â phroses Sicrwydd yr Uwch Reolwyr y cytunwyd arni'n flaenorol. Fodd bynnag, mae'r Uwch Dîm Rheoli yn deall mai dros dro oedd y gwyriad hwn o'r arfer arferol, ac y rhoddir camau ar waith i ail-ymgysylltu â phroses sicrwydd flaenorol yr uwch reolwyr yn llawn ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Er mwyn cynnal asesiad yr Uwch Reolwyr o lywodraethu da ar gyfer 2019/20 gyfan, pan oedd gwasanaethau'n dechrau 'ailddechrau' mewn ffordd wedi'i rheoli tua diwedd chwarter un 2020/21, manteisiodd yr Uwch Dîm Rheoli ar y cyfle i adolygu ffurflenni hanner blwyddyn 2019/20, ac ystyried y gwaith a gyflawnwyd dros y chwe mis diwethaf, gan gynnwys myfyrio ar yr ymateb y Cyngor i Covid 19.

16. Mae'r Uwch Dîm Rheoli o'r farn bod ymarfer Datganiad Sicrwydd diweddaraf yr Uwch Reolwyr o ganol blwyddyn 2019/20 yn cynnig adlewyrchiad cywir a theg o aeddfedrwydd llywodraethu'r Cyngor am y flwyddyn yn gyffredinol. Roedd yr asesiad canol blwyddyn hwn yn seiliedig ar yr aeddfedrwydd llywodraethu y gallem weld tystiolaeth ohonu ym mhob Cyfarwyddiaeth yn erbyn cyfres o ddatganiadau sicrwydd. Yn unol â hynny, mae'r Uwch Dîm Rheoli o'r farn bod y Cyngor yn nesau at gymhwyso camau llywodraethu da ar waith draws y meysydd sicrwydd, gyda rhai enghreifftiau o 'wedi'i ymwreiddio' a 'cyfyngedig' mewn rhai meysydd sicrwydd yn rhai cyfarwyddiaethau. Roedd yr asesiad hwn ar sail hunan-asesiad yn defnyddio system farcio 5 pwynt yn amrywio o 'ddim eto ar waith' i 'cymhwysiad cyfyngedig', i 'cymhwysiad cymysg' 'cymhwysiad cryf' i 'wedi'i ymwreiddio'. Amlygodd yr asesiad o aeddfedrwydd gyfleoedd i wella ymhellach ddisgyblaethau partneriaeth a llywodraethu a chydymffurfio cydweithredol a chyflwynir y manylion am hyn yng Nghynllun Gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Cydnabyddir, lle nodir gwendidau, fod angen sefydlu gweithdrefnau adfer cadarn. Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn cydnabod bod angen blaenoriaethu camau gweithredu er mwyn gwella i greu tystiolaeth gref o weithredu ym mhob maes yn y dyfodol.

17. Mewn perthynas â gwaith yr Uwch Dîm Rheoli yn 2019/20 gwnaethom barhau i fod yn berchen ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol ar y cyd, gwnaethom adolygu pob risg corfforaethol yn chwarterol, a monitro cynnydd yn erbyn cynllun gweithredu'r meysydd llywodraethu sylweddol.

18. Mae'r Prif Weithredwr yn parhau i bwysleisio bod angen mynd i'r afael â meysydd gwan yn y cyfnod heriol hwn sy'n newid a bod cyflawni safonau llywodraethu a rheolaeth gyson ar draws pob cyfarwyddiaeth yn bwysig o hyd, ac mae wedi atgyfnerthu'r disgwyliadau hyn i'w monitro a'u rheoli trwy broses datganiad sicrwydd yr uwch reolwyr wrth i ni fynd i mewn i 2020/21.

## Datganiad Barn Pennaeth Archwilio

19. "Mae'r PSIAS yn datgan bod 'Rhaid i'r Prif Weithredwr Archwilio gynnig barn a chyflwyno adroddiad blynyddol ar y gwaith archwilio mewnol y gellir eu defnyddio gan y sefydliad i lywio ei ddatganiad llywodraethu.' Mae'n rhaid i'r

rhain fod yn seiliedig ar asesiad gwrthrychol o'r fframwaith llywodraethu, rheoli a rheolaeth risg. Hefyd mae'n rhaid iddynt gynnwys arfarniad o ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd rheolaethau wrth ymateb i risgiau o fewn y systemau llywodraethu, gweithrediadau a gwybodaeth.

20. Cafodd y farn hon ei pharatoi gan y Rheolwr Archwilio, yn seiliedig ar ddarpariaethau'r PSIAS. Wrth baratoi a ffurfio'r farn hon, cymerwyd sicrwydd o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

21. ***Aseiniadau Archwilio Sicrwydd*** - gwaith wedi'i wneud trwy'r cynllun archwilio blynyddol sy'n seiliedig ar risg, gan flaenoriaethu cyflawniad er mwyn gwneud y mwyaf o sicrwydd a gwerth ychwanegol. Mae'r cynllun archwilio yn ymatebol i risg ac wedi'i arwain gan wybodaeth archwilio a chan sicrwydd presennol, gwybodaeth gan yr Uwch Reolwyr, a monitro gweithgarwch y Cyngor, strategaeth, risgiau a ffynonellau sicrwydd ehangach.

22. ***Trafodaeth gyda'r Uwch Reolwyr*** – cyfarfodydd rheolwyr perthynas chwarterol gyda Chyfarwyddwyr neu'u cynrychiolwyr, presenoldeb y Rheolwr Archwilio yng nghyfarfodydd yr Uwch Dîm Rheoli lle y caiff eitemau sicrwydd eu hystyried, a chyfarfodydd rheolaidd gyda'r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol (Swyddog Adran 151) a'r Prif Weithredwr.

23. ***Ymgynghori*** - cyngor ac arweiniad a gynigir yn gyffredinol neu ar faterion penodol, gan gynnwys cynllunio a datblygu prosesau newydd, megis dilysu ar sail risg ar gyfer ceisiadau am fudd-dal tai a gostyngiadau'r dreth gyngor, ac arweiniad ar brosesau ehangach, megis parhad a rheolaeth mewn swyddogaethau cefn swyddfa yn ystod argyfwng COVID-19 oedd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

24. ***Risg a Llywodraethu*** – adolygiadau sicrwydd ar gydlynu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, y datgeliadau rheoli sy'n cefnogi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, ac adolygiadau llywodraethu ehangach (gan gynnwys rhaglenni a phrojectau a gweithdrefnau ariannol/contract).

25. Yn seiliedig ar y rhaglen o waith archwilio yr ymgymerwyd â hi i asesu rheolaethau ac adolygiadau trefniadau llywodraethu a rheoli risg, ystyrir bod weithredu'r fframwaith cyffredinol ar gyfer rheolaeth o fewn y Cyngor ar gyfer 2019/20 yn **effeithiol gyda chyfle i wella.** Mae'r farn hon yn seiliedig ar lunio cynllun archwilio cynhwysfawr, ac ar gydnabyddiaeth o'r pwysau cynyddol ar adnoddau o ran maint y galw a chyllidebau, a gafodd ei reoli trwy ddiwydiant perfformio gwydn.

Ystyriwyd bod yr amgylchedd rheoli ar gyfer systemau ariannol craidd, ac ar gyfer mwyafrif yr archwiliadau yn gyffredinol (74%) yn ddigonol, a nodwyd barn archwilio 'effeithiol' neu 'effeithi gyda chyfle i wella' iddo. Rhoddwyd barn archwilio o "annigonol ac angen gwella'n fawr" i 23 o archwiliadau, gan gydnabod yr angen am roi sylw i'r gwaith o sicrhau rheolaethau cadarn, a rhoddwyd barn "anfoddhaol" i bedwar archwiliad mewn perthynas ag ysgol benodol, gwasanaeth ysgol a fasnechir, a meysydd rheoli gwastraff penodol. Ymchwiliwyd i nifer o honiadau o dwyll o fewn y

swyddogaeth Rheoli Gwastraff a oedd yn deillio o gyfnod cyn y flwyddyn ariannol hon, mae'r rhan fwyaf o wrandawiadau disgyblu cysylltiedig wedi'u cwblhau yn unol â pholisi disgyblu'r Cyngor, ac mae gwaith ymgysylltu â'r Heddlu yn parhau. Mae'r swyddogaeth Rheoli Gwastraff yn parhau i dderbyn cyfran uwch o honiadau o dwyll ac amhriodoldeb ariannol, ac mae pob honiad yn cael ei asesu a'i ymchwilio'n drylwyr fel y bo'n briodol. Mae sicrwydd a chymorth archwilio yn targedu ac yn
26. rhoi camau dilynol ar waith mewn cysylltiad â'r meysydd â'r risg uchaf."

**<u>Datganiad Barn 2019/20y Pwyllgor Archwilio</u>**

27. "Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio yn ystod 2019/20, ystyrir mai barn y Pwyllgor yw bod gan y Cyngor, gan fwyaf, reolaethau mewnol a threfniadau llywodraethu cadarn ar waith. Caiff risgiau strategol sy'n cynrychioli'r heriau gwirioneddol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu eu nodi a'u hadolygu'n rheolaidd. Ymhlith yr enghreifftiau o'r meysydd y mae'r Pwyllgor yn dal i bryderu yn eu cylch, a gaiff eu cynnwys yn Rhaglen Waith y Pwyllgor yn 2020/21, mae:

## Rheoli Cyllidebau

28. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cydnabod y pwysau ariannol parhaus sydd ar y Cyngor ac yn nodi, er bod y sefyllfa ariannol yn gytbwys, bu gan rai cyfarwyddiaethau penodol orwariant sylweddol, a bu angen gwella'r rheolaethau.

29. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn parhau i godi pryderon am y rheolaethau sydd ar waith o fewn cyfarwyddiaethau i gyflawni cynigion arbedion cyllideb a gyflwynwyd, a bydd yn parhau i atgyfnerthu'r disgwyliadau ar gyfer cyflawni yn y flwyddyn i ddod.

30. Mae rheoli cyllidebau yn arbennig o berthnasol ar hyn o bryd o ystyried y pwysau sy'n wynebu awdurdodau lleol wrth iddynt ymateb i'r gwaith o gefnogi'r anghenion economaidd a chymdeithasol a gyflwynir gan argyfwng COVID-19. Mae'r amgylchedd digynsail hwn yn dilyn nifer o flynyddoedd lle mae'r paramedrau ariannol y mae'r Cyngor yn gweithredu oddi mewn iddynt wedi'u cyfyngu. Bydd y Pwyllgor yn craffu'n ofalus ar y ffordd y rheolir y gyllideb dros y flwyddyn i ddod drwy reolaethau ac ymyriadau rheoli priodol, pan fo angen, a bydd yn parhau i atgyfnerthu disgwyliadau ar gyfer cyflawni o ystyried y pwysau ariannol sylweddol sy'n wynebu'r Cyngor.

## Rheolaeth Fewnol

31. Mae'r lleihad parhaus o ran yr adnoddau, ynghyd â phoblogaeth sy'n tyfu a galw mwy am wasanaethau cyhoeddus yn golygu bod y Cyngor yn wynebu heriau sylweddol yn y ffordd mae'n darparu gwasanaethau. Ar adeg pan fo rhaid i lawer o benderfyniadau fod yn seiliedig ar faterion cyllid, mae'n hanfodol nad yw rheolaethau mewnol yn cael eu hesgeuluso nac yr amherir arnynt, a bod rheolaethau cryf ar waith trwy brosesau a systemau diwygio.

32. Mae’r Pwyllgor Archwilio wedi gwahodd uwch reolwyr i fod yn bresennol ym mhob cyfarfod o’r Pwyllgor eleni, er mwyn cyfrif am eu cyflawniad o lywodraethu da, rheoli risg a rheoli mewnol. Yn ogystal, mae’r Pwyllgor Archwilio wedi parhau i dderbyn manylion yr holl Archwiliadau Mewnol a gwblhawyd, a’r sgorau sicrwydd priodol. Eleni rydym wedi gweld enghreifftiau o fylchau rheolaeth fewnol unigol, a barnau archwilio anfoddhaol mewn perthynas ag ysgol benodol, gwasanaeth a fasnechir gan ysgol, ac mewn meysydd rheoli gwastraff. Er bod nifer y barnau Archwilio Mewnol anfoddhaol yn parhau’n isel, mae’n rhaid i’r rheolwyr sicrhau bod systemau rheoli mewnol cadarn ar waith mynd i'r afael ag unrhyw wendidau a nodwyd yn brydlon.

33. Mae’r Pwyllgor Archwilio’n ymwybodol yr ymchwiliwyd i nifer o honiadau o dwyll o fewn y swyddogaeth Rheoli Gwastraff, mae'r rhan fwyaf o wrandawiadau disgyblu cysylltiedig wedi'u cwblhau yn unol â pholisi disgyblu'r Cyngor, ac mae gwaith o ymgysylltu â’r Heddlu yn parhau. Pan fydd y materion hyn wedi dod i ben, bydd y Pwyllgor Archwilio yn chwilio am sicrwydd ar gadernid yr adolygiad dilynol.

34. Mae’r Pwyllgor yn derbyn rhestr o’r holl argymhellion Archwilio Mewnol a godwyd ac y cytunwyd arnynt, a gwelededd sylwadau rheoli a ddiweddarwyd tan y pwynt gweithredu. Er bod gan y Pwyllgor Archwilio sicrwydd cyffredinol mewn cysylltiad â rheolaeth fewnol, rydym yn parhau i ofyn i swyddogion gyfrif am wasanaethau neu swyddogaethau pan nodwyd gwendidau o ran y rheolaeth fewnol. Rydym yn parhau i herio unrhyw ddiffyg o ran stiwardiaeth a rheolaeth mewn cysylltiad ag arian ac asedau cyhoeddus ac yn mynnu ar gamau gweithredu buan, cyfatebol gan y tîm rheoli. Mae’r Pwyllgor Archwilio wedi ystyried Cynllun Archwilio 2020/21 a bydd yn monitro ei gynnydd a’i ganfyddiadau’n fanwl dros y flwyddyn.

## Gwydnwch Ariannol (yn cynnwys Rheoli’r Trysorlys)

35. Ar adeg pan fo arian wedi’i gyfyngu, bydd y Pwyllgor Archwilio’n parhau i ystyried y fframwaith ar gyfer penderfyniadau ariannol. Mae’r Pwyllgor Archwilio wedi derbyn diweddariadau ar wydnwch ariannol fel rhan o’r diweddariadau cyllid ac wedi croesawu sicrwydd annibynnol o ran gweithgareddau Rheoli Trysorlys y Cyngor, gan gynghorwyr Rheoli Trysorlys y Cyngor.

36. Bydd y Pwyllgor Archwilio yn parhau i chwilio am sicrwydd bod arferion a strategaeth rheoli trysorlys cadarn ar waith. Mae hyn yn waith hanfodol a fydd yn diogelu ac yn darparu gwerth gorau o ran benthyciadau a buddsoddiadau’r Cyngor. Mae’r Pwyllgor Archwilio wedi a bydd yn parhau i fodloni ei hun bod lefelau a phroffiliau buddsoddiadau a benthyca drwy gydol y flwyddyn yn briodol ac yn unol ag Arferion, Strategaeth ac Adroddiadau'r Trysorlys a gyflwynwyd.

## Llywodraethu a Chydymffurfiaeth Ysgolion

37. Mae'r Pwyllgor archwilio wedi bod codi pryderon am faterion llywodraethu a chydymffurfio mewn ysgolion ers cryn dipyn o amser, gan eu bod yn gyfrifol yn gyson am gyfradd uwch o adroddiadau archwilio sy'n peri pryder. Eleni, drwy oruchwylio gwaith archwilio mewnol, rydym wedi parhau i sylwi nad yw rhai ysgolion wedi cyflawni lefelau stiwardiaeth a rheolaeth fewnol foddhaol.

38. O ystyried yr angen parhaus am sicrwydd cyson o ran llywodraethu ysgol, mae'r Pwyllgor Archwilio wedi trefnu derbyn diweddariadau rheolaidd gan y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes ar y monitro, rheolaethau a chynnydd gwelliannau sy'n gysylltiedig â gwaith llywodraethu mewn Ysgolion. Mae hyn gyda'r ddealltwriaeth y gall y Pwyllgor Archwilio ofyn i'r rhai sy'n uniongyrchol gyfrifol am lywodraethu ar lefel ysgol unigol, i ddod i gyfarfod o'r Pwyllgor, os nad yw'r sicrwydd a roddir yn cael ei ystyried yn dderbyniol.

39. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod na all y Cyngor bennu rheolau i ysgolion mewn cysylltiad â glynu at faterion contractio, er y gall gynnig cyngor ar arfer da. Mae'r maes hwn yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r Pwyllgor Archwilio'n parhau i gefnogi'r gwaith o baratoi a defnyddio canllawiau arfer gorau mewn ysgolion gyda golwg ar atgyfnerthu'r rheolaeth a stiwardiaeth ariannol.

### ii) Y Fframwaith Llywodraethu - Gwybodaeth Ategol

### A. Ymddwyn gyda gonestrwydd, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu'r rheol gyfreithiol.

40. Mae gofyn i bob Aelod a Swyddog y Cyngor gydymffurfio'n llawn â'r Codau Ymddwyn fel y'u nodwyd y Cyfansoddiad, sy'n nodi rolau a chyfrifoldebau penodol y Swyddogion a'r Aelodau ac yn egluro'r rhyngwyneb rhwng y rolau hyn. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Swyddogaethau ac isadrannau a ddirprwyir i Swyddogion
- Cod Ymarfer Aelodau
- Cod Ymarfer Cyflogeion
- Protocol Perthnasoedd Aelodau / Swyddogion
- Ymrwymiad Caerdydd – ar ôl eu hethol, mae'r Aelodau'n ei lofnodi sy'n tanlinellu eu dyletswyddau i'r Ddinas a'i dinasyddion

41. Y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol yw'r Swyddog Monitro ac mae ganddo ddyletswydd benodol i sicrhau bod y Cyngor, ei Swyddogion a'r Cynghorwyr Etholedig yn arfer y safonau ymddygiad uchaf ym mhopeth a wnânt yn seiliedig ar Adran 5 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 fel y'i diwygiwyd gan Atodlen 5, paragraff 24 Deddf Llywodraeth Leol 2000.

42. Mae gan y Pwyllgor Safonau a Moeseg gyfrifoldeb i fonitro a chraffu ar safonau moeseg y Cyngor, ei Aelodau, ei gyflogeion ac unrhyw ddarparwyr cysylltiedig sy'n cyflenwi gwasanaethau i'r Cyngor, ac adrodd wrth y Cyngor am unrhyw fater sy'n peri pryder. Mae'r Pwyllgor yn cael ei gadeirio gan berson annibynnol ac mae rôl y person hwnnw yn cynnwys pennu canlyniad cwynion yn erbyn Cynghorwyr ac Aelodau Cyfetholedig a monitro gweithdrefnau chwythu'r chwiban y Cyngor.

43. Yn 2019/20 rhoddwyd gwybod i'r Swyddog Monitro am o ddeg o gwynion yn ymwneud ag ymddygiad Aelodau. Nid yw'r Swyddog Monitro wedi atgyfeirio unrhyw un o'r cwynion hyn i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus, fodd bynnag, gwnaed tair cwyn uniongyrchol gan yr achwynwyr i'r Ombwdsmon. O'r tair cwyn a gyflwynwyd i'r Ombwdsmon, ym mhob achos penderfynodd yr Ombwdsmon nad oedd unrhyw dystiolaeth o dorri'r Cod, felly ni fyddai ymchwiliad pellach. Ymdriniwyd â thair cwyn dan y Protocol Datrys Anghydfod Lleol, ac o'r rhain, cafodd un ei datrys yn anffurfiol gan y Swyddog Monitro ac atgyfeiriwyd dau at y Panel Gwrandawiadau (gwrandawiadau i'w trefnu). Mewn tri achos, penderfynodd y Swyddog Monitro nad oedd unrhyw dystiolaeth o dorri'r Cod, felly nid oedd unrhyw gamau pellach yn briodol. Hysbyswyd un achwynydd o gylchoedd gwaith gwahanol gyrff rheoleiddio perthnasol eraill, a dywedwyd wrtho am gyfeirio'r cwynion at y cyrff hynny, fel y bo'n briodol.

44. Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau a Moeseg Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor ar gyfer 2018/19 i'r Cyngor llawn ym mis Chwefror 2020 gan amlinellu gwaith y Pwyllgor. Cyfeiriodd y Cadeirydd yn benodol at ganfyddiadau Arolwg yr Aelodau gan atgoffa'r Aelodau am y canllawiau ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae'r Pwyllgor wedi cytuno bod cyflwyno ei Adroddiad Blynyddol i'r Cyngor yn helpu'r Aelodau i ddeall rôl bwysig y Pwyllgor a'i waith; ac y byddai mwy o friffiau i'r Aelodau yn cael eu cyhoeddi yn ôl yr angen.

45. Mae'n angen i'r Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig gofrestru eu buddiannau personol yn unrhyw fusnes sy'n ymwneud â'r awdurdod a chydymffurfio â'r rheolau ar fuddiannau personol a nodir yng Nghod Ymddygiad yr Aelodau. Cyhoeddir yr holl fuddiannau personol a ddatgelir gan yr Aelodau ar wefan y Cyngor yn y wybodaeth ar broffiliau'r Aelodau. Mae Polisi'r Cyngor ar Fuddiannau Personol ac Ail Swyddi'r Swyddogion yn mynnu bod staff yn datgelu unrhyw fuddiant personol sydd yn neu a allai wrthdaro â'u dyletswyddau i'r Cyngor a'r holl swyddi eraill. Mae'r polisi'n nodi bod yn rhaid i bob un o gyflogeion y Cyngor, dan y Cod Ymarfer Cyflogeion, sicrhau nad yw ei fuddiannau preifat yn gwrthdaro â'i ddyletswyddau cyhoeddus, a chydymffurfio â rheolau'r Cyngor ar gofrestru a datgan buddiannau ariannol ac anariannol. Mae'r Pwyllgor Safonau a Moeseg wedi adolygu trefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli buddiannau personol swyddogion ac wedi argymell y dylid cyhoeddi cofrestr o fuddiannau busnes allanol Uwch Swyddogion ar wefan y Cyngor o 01/04/2019, sydd wedi'i gweithredu. Cytunodd y Pwyllgor na ddylid gwneud unrhyw newidiadau pellach i drefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli buddiannau personol swyddogion.

46. Mae Gwerthoedd Corfforaethol y Cyngor yn canolbwyntio ar degwch, bod yn agored a chydweithio. Mae'r Cyngor yn cefnogi diwylliant o ymddygiad sy'n seiliedig ar y gwerthoedd hyn sy'n llywio sut y caiff gweledigaeth hirdymor y Cyngor ei rhoi ar waith, yn ogystal â sut mae'r Aelodau a'r Swyddogion yn cyflawni eu rolau dydd i ddydd. Mae gwaith cynllunio corfforaethol a chyfarwyddiaethau datblygiad a pherfformiad personol wedi'u cyfuno â chyflawni gwerthoedd a blaenoriaethau corfforaethol.

47. Mae'r Siarter Strategaeth Gweithlu a Chyflogeion yn parhau i sicrhau bod gweledigaeth a gwerthoedd y Cyngor a'r Cynllun Corfforaethol yn cyd-fynd â'i gilydd:

- Mae Siarter y Cyflogai yn nodi'r hyn a ddisgwylir gan yr holl staff (cyflogeion, rheolwyr ac uwch reolwyr) ac mae'n rhan o'r broses o osod amcanion ar gyfer adolygiadau personol
- Mae Strategaeth y Gweithlu'n ceisio sicrhau canlyniadau ar ran a chyda'r cyflogeion, o fewn diwylliant sy'n cefnogi gweithlu hyblyg, cymwys, cynwysedig ac amrywiol.

48. Mae'r Cyngor yn trin twyll, llygredd a chamweinyddu yn ddifrifol iawn ac mae'r strategaeth a'r polisïau canlynol yn atgyfnerthu hynny er mwyn arbed a rheoli achosion o'r fath

- Strategaeth Atal Twyll a Llygredd
- Rheolau Gweithdrefn Ariannol
- Archeb Sefydlog Contract a Rheolau Caffael
- Polisi Chwythu'r Chwiban
- Polisi Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd
- Gweithdrefn a Pholisi Gwyngalchu Arian
- Polisi Diogelwch TGCh
- Polisi a Gweithdrefn Diogelu Data
- Polisïau AD ynghylch ymchwilio a disgyblu staff

49. Cyflwynwyd y Strategaeth Atal Twyll a Llygredd ym mis Gorffennaf 2019 drwy amrywiaeth o ddulliau cyflawni megis e-ddysgu a gweithdai mewn lleoliadau. Mae dros 3,500 o weithwyr wedi dilyn y cwrs, ac mae dros 70 o Benaethiaid a 35 o Gadeiryddion / Llywodraethwyr Ysgol wedi mynychu sesiynau hyfforddiant. Cefnogir y Cyngor hefyd gan amrywiaeth o bolisïau, gweithdrefnau a rheoliadau, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â Rheolaeth Ariannol, Diogelu Data, Iechyd a Diogelwch, Cydraddoldeb a Diogelwch TG.

50. Mae gan y Cyngor Bolisi Chwythu'r Chwiban ar waith a thrwy hwnnw, anogir staff a chontractwyr i nodi achosion o gamymddwyn neu ymddygiad anghyfreithlon yn y sefydliad, sy'n effeithio ar y cyhoedd ac eraill (gwneud datgeliad er budd y cyhoedd). Yn 2019/20, rhoddwyd gwybod am chwe achos chwythu'r chwiban i'r Swyddog Monitro.

51. Y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am y weinyddiaeth ariannol (Swyddog A151) a threfniadau llywodraethu gwybodaeth y Cyngor (SIRO). Mae trefniadau rheoli ariannol y Cyngor yn cydymffurfio â

gofynion llywodraethu Datganiad Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA) ar rôl Prif Swyddog Ariannol Llywodraethau Lleol (2016). Roedd angen cryfhau'r trefniadau Llywodraethu Gwybodaeth mewn perthynas â'r Uwch Fwrdd Rheoli ac mae'r Grŵp Goruchwylio Diogelwch a Llywodraethu wedi'i ffurfio ac wedi cynnal ei gyfarfod cyntaf ar 11 Mai 2020. Mae'r Grŵp yn cynnwys y SIRO, Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau, y Swyddog Monitro, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, y Prif Swyddog Digidol a'r Pennaeth Cyllid. Mae cynlluniau ar waith i sefydlu Grŵp Cynrychiolwyr Cyfarwyddiaethau mwy effeithiol er mwyn sicrhau bod trefniadau ymgynghori a chyfathrebu effeithiol ar waith mewn cysylltiad â materion Diogelwch a Llywodraethu Gwybodaeth.

**B. Sicrhau ymgysylltu agored a chynhwysfawr â rhanddeiliaid.**

52. Trwy ei Werthoedd Corfforaethol, mae'r Cyngor yn nodi ymrwymiad i fod yn "agored a gonest ynghylch y penderfyniadau anodd sy'n ein hwynebu, a rhoi'r cyfle i bobl ddweud eu dweud ynghylch yr hyn sy'n bwysig iddynt a'u cymunedau." Mae ymgynghori, ymgysylltu a chydweithio â dinasyddion yn ganolog er mwyn cyflawni'r gwerth hwn a chânt eu cyflwyno fel a ganlyn.

53. Er mwyn cefnogi bod yn agored, mae'r Cyngor yn canolbwyntio ar gynyddu data trwy ddatblygu Strategaeth Data Agored fel rhan o Gynllun Cyhoeddi'r Cyngor. Mae wedi mabwysiadu dull llywodraeth y DU o gyhoeddi data hyd at isafswm o 3 seren o raddfa 5 seren. Golyga hyn y dylai data fod ar gael yn hawdd ac ar gael i'w ail-ddefnyddio yn ôl yr angen (yn amodol ar y telerau yn y Drwydded Llywodraeth Agored). Mae setiau data yn parhau i gael eu nodi i'w cyhoeddi.

54. Mae trafodaeth a her agored ar berfformiad a rheoli risg ac mae'r Uwch Dîm Rheoli yn adrodd ac yn adolygu bob tri mis, yna ceir herio a goruchwylio pellach yng nghyfarfodydd y Cabinet, Pwyllgorau Craffu a'r Pwyllgor Archwilio. Mae Grŵp Llywio Rheoli Risg er mwyn datblygu ac adolygu polisi rheoli risg a fframweithiau atebolrwydd ac i gynorthwyo'r UDRh wrth adnabod risgiau corfforaethol newydd neu sy'n dod i'r amlwg. Datblygwyd rôl Sicrwydd o fewn amgylchedd yr UDRh, lle y mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr yn trafod agweddau ar y sicrwydd, er enghraifft rheoli risg, rheoli perfformiad, canlyniadau a chynnydd ar argymhellion a wneir gan y cyrff a'r rheoleiddwyr mewnol ac allanol. Mae hyn wedi cynyddu'r gwelededd a'r cysylltiadau rhwng y darnau sicrwydd hyn. Mae'r cyfarfodydd rhwng y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr ac Aelodau'r Cabinet i gytuno ar gamau gweithredu sy'n deillio o drafodaeth agored ynghylch yr heriau o ran perfformio a darparu gwasanaethau wedi parhau am y rhan fwyaf o 2019/20.

55. Mae cyfarfodydd y Cyngor, y Cabinet a'r Pwyllgorau yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol, ac eithrio pan drafodir gwybodaeth gyfrinachol neu a eithrir, yn unol â'r gyfraith. Mae cyfarfodydd Llawn y Cyngor yn cynnwys cyfle ar gyfer cwestiynau gan y cyhoedd ac mae Pwyllgorau Craffu'r Cyngor yn gwahodd cyfraniadau gan randdeiliaid at eu rhaglen graffu, trwy ymchwil ac ymarferion ymgynghori a chyfle uniongyrchol i drafod â'r Pwyllgorau. Yn ystod 2019/20,

mae nifer a mathau cyfarfodydd Pwyllgorau a'r Cyngor wedi cynyddu o gymharu â 2018/19. Dyrannwyd amser gwe-ddarlledu i gyfarfodydd craffu ac i gyfarfodydd eraill yn seiliedig ar fudd y cyhoedd a blaenoriaethu eitemau penodol gan gynnwys datblygu a gweithredu gwe-ddarllediad dwyieithog ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor.

| Data Gwe-ddarlledu | | |
|---|---|---|
| Blwyddyn | 2018-19 | 2019-20 |
| Nifer y Cyfarfodydd a We-ddarlledwyd | 37 | 54 |
| Nifer y Pwyllgorau (Mathau) a we-ddarlledwyd | 8 | 10 |
| Cyfanswm yr Oriau Gwe-ddarlledu | 95:15:44 | 126:50:24 |
| Nifer y bobl oedd yn gwylio'n fyw | 1674 | 1960 |
| Nifer y bobl sydd wedi gwylio trwy'r Archifau | 3376 | 6909 |
| Cyfanswm y bobl sydd wedi gwylio | 5050 | 8869 |

56. Rhoddir cyfle i'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill roi gwybod i'r Cyngor beth yw eu barn ar y gwasanaethau a ddarperir trwy Bolisi Sylwadau, Cwynion a Chanmol y Cyngor. Mae'n adlewyrchu'r arweiniad a roddir gan Bapur Polisi a Chanllawiau Model Llywodraeth Cymru ar Ddelio â Chwynion, yn ogystal ag arweiniad a gafwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru sydd bellach yn rhoi pwyslais mwy ar ddatrys cwynion yn brydlon. Caiff y Cabinet wybod bob blwyddyn am nifer y cwynion a ddaw i law.

57. Mae dinasyddion, cymunedau a phartneriaid yn parhau i gael eu cynnwys trwy raglen o ymgysylltu â dinasyddion, ymgynghori cyllidebol, arolygon Holi Caerdydd sy'n ceisio barn ar ystod o ddatganiadau Ansawdd Bywyd ac Ansawdd Gwasanaeth. Defnyddir allbwn y rhain i lywio cynigion a

phenderfyniadau o ran blaenoriaethau a chynllunio ar gyfer darparu gwasanaethau. Mae lle i wella o ran nifer y bobl sy'n mynychu'r sesiynau ymgysylltu hyn a bydd y Cyngor yn parhau i geisio cynyddu nifer y bobl sy'n cymryd rhan.

58. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd â rhanddeiliaid sefydliadol y mae'r Cyngor yn atebol iddynt, sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru ac Archwilwyr Allanol y Cyngor (Swyddfa Archwilio Cymru). Gwnaed ymdrechion hefyd i feithrin perthnasoedd agored ac effeithiol rhwng y Cyngor Sir a'r chwe Chyngor Cymuned yng Nghaerdydd trwy Siarter y Cynghorau Cymuned ("y Siarter"). Mae'n adlewyrchu'r Siarter model a gyflwynodd Llywodraeth Cymru ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ac mae'n seiliedig ar gydraddoldeb partneriaeth rhwng y ddwy haen o lywodraeth leol.

59. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Caerdydd yn cynrychioli partneriaeth statudol rhwng sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol, a gadeirir gan Arweinydd y Cyngor i gyflawni Cynllun Lles y ddinas. Mae'r Cynllun Lles, sy'n ymateb i'r dystiolaeth yn yr Asesiad Lles yn canolbwyntio ar feysydd cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus sy'n gofyn am waith partneriaeth yn y bôn rhwng gwasanaethau cyhoeddus a chymunedol, ac â dinasyddion Caerdydd. Mabwysiadwyd y Cynllun gan y Cyngor Llawn a sefydliadau aelod statudol erbyn y dyddiad cau statudol sef 3 Mai 2018. Cefnogir BGC Caerdydd gan drefniadau llywodraethu a chyflawni ar sail partneriaeth, ac maent yn adrodd yn ôl i'r BGC bob chwarter. Yn ystod argyfwng Covid-19 mae BGC Caerdydd wedi cyfarfod yn fwy rheolaidd er mwyn arwain ymateb strategol cydgysylltiedig i faterion pwysig ar draws gwasanaethau cyhoeddus y ddinas. Mae'r adroddiad blynyddol ar y Cynllun Lles wedi'i ohirio o ganlyniad i argyfwng covid-19, a chaiff ei ystyried gan BGC Caerdydd ym mis Medi.

60. Mae ymatebion aml-asiantaeth yn seiliedig ar ardaloedd wedi'u hymestyn i ardaloedd Butetown a Sblot, gydag amrywiaeth o bartneriaid sy'n nodi, trafod a chynllunio blaenoriaethau ar y cyd i fynd i'r afael â nhw. Yn Butetown, canolbwyntir ar ddyheadau pobl ifanc, yr effaith ar y gymuned o ganlyniad i gyffuriau, llinellau cyffuriau a'r tarfu a achosir gan ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yn y Sblot, canolbwyntir ar linellau cyffuriau, aflonyddwch gan feiciau modur oddi ar y ffordd a gweithgarwch dargyfeiriol i bobl ifanc. Ar hyn o bryd nid oes adnodd penodol wedi'i anelu'n bennaf at Weithio ar sail Ardal ac mae gwaith a wnaed hyd yma wedi'i wneud ar sail treial a phrawf o gysyniad. Bydd angen gwneud mwy o waith i sicrhau bod y dull o Weithio ar sail Ardal yn y Sblot a Thremorfa ar yr un lefel â Butetown, mae partneriaid hefyd wedi awgrymu cynnwys Adamsdown. Mae'r dulliau adrodd yn amlygu prif gyflawniadau ac atebolrwydd yn seiliedig ar ganlyniadau ond mae cafeatau o ran adnoddau ac amser yn cael eu hystyried yn gyfyngiadau. Mae Covid 19 wedi effeithio ar y maes hwn ac mae wedi arwain at atal gweithgarwch oherwydd cyfyngiadau cyfnodau cloi a mesurau ymbellhau cymdeithasol.

## C. Diffinio deilliannau yn nhermau buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy.

61. Er mwyn amlinellu ei huchelgais ar gyfer y ddinas, nododd y Weinyddiaeth raglen polisi newydd ar gyfer y pum mlynedd rhwng 2017 a 2022, sef ‘Uchelgais Prifddinas’. Diweddarwyd yr ymrwymiadau polisi dan sylw ym mis Ionawr 2020. Wrth wraidd Uchelgais Prifddinas mae'r nod o greu prifddinas wyrddach, decach a chryfach, a threchu tlodi ac anghydraddoldeb o bob math.

62. Mae Uchelgais Prifddinas yn nodi pedair blaenoriaeth:

- **Gweithio dros Gaerdydd:** Sicrhau y gall ein holl ddinasyddion gyfrannu at lwyddiant y ddinas a manteisio ar hynny.
- **Gweithio dros Gymru:** Mae angen prifddinas lwyddiannus i greu Cymru lwyddiannus.
- **Gweithio ar gyfer y Dyfodol:** Rheoli twf y ddinas mewn ffordd gynaliadwy.
- **Gweithio dros Wasanaethau Cyhoeddus:** Sicrhau bod ein gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu’n effeithlon, effeithiol a chynaliadwy yn wyneb y galw cynyddol a chyllidebau llai.

63. Mae’r Cynllun Corfforaethol yn nodi sut caiff blaenoriaethau’r Weinyddiaeth ar gyfer Caerdydd eu cyflawni, gan sicrhau eglurder o ran beth fydd yn cael ei gyflawni, ac erbyn pryd. Yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru), mae Cyflawni Uchelgais Prifddinas yn nodi Amcanion Lles Caerdydd, y camau y byddwn yn eu rhoi ar waith i’w cyflawni a sut y byddwn yn mesur cynnydd. Y saith Amcan Lles yw:

- Mae Caerdydd yn lle gwych i gael eich magu
- Mae Caerdydd yn lle gwych i dyfu’n hŷn
- Cefnogi pobl allan o dlodi
- Cymunedau diogel, hyderus a grymus
- Prifddinas sy’n gweithio dros Gymru
- Mae Caerdydd yn tyfu mewn ffordd gadarn
- Moderneiddio ac integreiddio ein gwasanaethau cyhoeddus

64. Cytunodd y Cyngor a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd ar yr un Amcanion Lles, gan greu cyswllt clir rhwng y Cynllun Corfforaethol a 'Chynllun Lles 2018-23' y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae’r 'Cynllun Ardal ar gyfer Anghenion Gofal a Chymorth 2018-23' a gynhyrchwyd gan Bartneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Caerdydd a’r Fro yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 hefyd yn cynnig dull mwy cyson o gynllunio ar draws ystod o bartneriaid.

65. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn gynllun tair blynedd treigl sy'n cael ei adnewyddu'n flynyddol. Cymeradwywyd y gwaith adnewyddu diweddaraf gan y Cyngor ym mis Chwefror 2020 ar gyfer y cyfnod 2020 – 2023, a lywiwyd gan yr ymgynghoriad ar gynigion cyllidebol ar gyfer 2020/21.

66. Caiff y gwaith o gyflawni'r Cynllun Corfforaethol ei fonitro drwy Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cyngor, sydd hefyd yn galluogi agenda bolisi'r Cyngor i gael ei hadnewyddu a'i diweddaru yn ôl yr angen. Mae hyn yn cynnwys:

- Monitro perfformiad chwarterol gan y Cabinet a'r Uwch Dîm Rheoli yn rhan o'i rôl fel Bwrdd Sicrwydd. Adrodd ar gynnydd i Aelodau ochr yn ochr â'r gwaith Monitro Cyllidebol
- Asesiadau strategol hanner blwyddyn a diwedd blwyddyn o berfformiad sy'n cynnwys yr Adroddiad Lles Blynyddol i fodloni gofynion statudol o ran adrodd ar berfformiad. Mae hyn yn cynnwys yr holl ddata perfformiad perthnasol, fel y'i lywir gan gofrestr risg a monitro cyllid y Cyngor. Caiff yr asesiad hanner blwyddyn ei ystyried gan Bwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad (PRAP) cyn iddo gael ei dderbyn gan y Cabinet. Caiff yr asesiad diwedd blwyddyn ei ystyried gan PRAP a'r Cabinet cyn cael ei gymeradwyo mewn cyfarfod y Cyngor llawn.
- Mae Pwyllgor Craffu PRAP yn ystyried drafft cynnar o'r Cynllun Corfforaethol er mwyn helpu i lunio polisi corfforaethol.
- Caiff targedau ar gyfer y Dangosyddion Perfformiad Allweddol eu hystyried gan y Panel Perfformiad, sy'n cynnwys aelodau o'r Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad fel ni fel Cadeiryddion pob pwyllgor craffu.

67. Sesiynau herio a gynullwyd gan yr Arweinydd, y Prif Weithredwr, yr Aelod(au) Cabinet perthnasol a'r Cyfarwyddwr(wyr) i gwblhau Camau, Dangosyddion Perfformiad Allweddol a Thargedau yn ôl Amcan Lles.

68. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar gynigion cyllidebol 2019/20 y Cyngor "Newidiadau i Gaerdydd" o 16 Tachwedd 2018 tan 2 Ionawr 2019. Fel yr amlinellwyd o dan egwyddor B y DLlB hwn, gan sicrhau ymgysylltu agored a chynhwysfawr, defnyddiwyd nifer o fecanweithiau i sicrhau bod yr ymgynghoriad mor hygyrch â phosibl. Roedd yr ymgynghoriad yn galluogi aelodau'r cyhoedd i ddweud eu barn ar y cynigion cyllidebol. Cyfrannodd at y penderfyniadau terfynol ar newid gwasanaethau, a oedd yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a werthfawrogir yn wyneb caledi parhaus.

69. Mae adeiladu ar ddull Strategaeth Cyllideb y Cyngor dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf yn allweddol i gynllunio ar gyfer y blynyddoedd ddod. Nododd y Cyngor fwlch yn y gyllideb o £105 miliwn ar gyfer y cyfnod 2020/21 i 2023/24 gyda bwlch o £73 miliwn ar gyfer y cyfnod 2021/22 i 2024/25. Mae'r rhagolygon dros y tymor canolig yn parhau'n destun pryder a manylodd Adroddiad Cyllideb 2020/21 ar yr heriau o ran pwysau ariannol parhaus a'r anhawster o ran pennu a chyflawni arbedion cyllidebol o flwyddyn i flwyddyn. Mewn blwyddyn arferol, bydd Strategaeth Cyllideb y gellir ei chyflawni yn parhau'n ddogfen allweddol i'w hadolygu ond gydag effaith Covid19 bydd hyn yn gofyn am fonitro agosach fyth ac ail-lunio'r strategaeth o bosibl wrth i wasanaethau esblygu i'w siâp a'u maint yn y dyfodol.

D. **Pennu'r ymyriadau y mae eu hangen i optimeiddio'r gwaith o gyflawni'r deilliannau a fwriedir.**

70. Caiff pob penderfyniad gan y Cabinet a'r Cyngor eu hategu gan adroddiadau ysgrifenedig gan Swyddogion ar oblygiadau cyfreithiol, AD, eiddo ac ariannol y penderfyniad. Hefyd, mae angen yr adroddiadau hyn i amlinellu'r canlyniadau

economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, y risgiau allweddol a'r camau gweithredu amgen sydd ar gael.

71. I fodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'r Cyngor wedi cyhoeddi amcanion lles a datganiad lles yn rhan o ddatblygiad y Cynllun Corfforaethol. Er mwyn sicrhau'r egwyddor datblygu cynaliadwy roedd y ffocws ar ystyried y 5 ffordd o weithio ar gam cynnar y gwaith o ddatblygu polisi. Anogir datblygu polisi, ar draws y sefydliad, i ystyried:

- **Hirdymor:** Y tueddiadau sy'n effeithio ar Gaerdydd heddiw ac yn y dyfodol.
- **Atal:** Ymyrryd yn gynharach i atal problemau sy'n effeithio ar ddinasyddion rhag digwydd neu waethygu.
- **Cynnwys Pobl:** Ymgysylltu â dinasyddion, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed yng nghymdeithas.
- **Integreiddio:** Gweithio ar draws ffiniau i gyflawni Uchelgais Prifddinas, agenda bolisi'r weinyddiaeth ar gyfer y ddinas.
- **Cydweithio:** Gweithio gydag eraill i gael mwy o effaith.

72. Mae'r Cyngor yn defnyddio nifer o ffynonellau gwybodaeth i asesu cynnydd yn erbyn Amcanion Lles, gan gynnwys:

- **Cynnydd yn erbyn Mesuriadau Perfformiad Allweddol y Cyngor** – Nodir nifer o fesuriadau perfformiad yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor sy'n helpu i ddangos y cynnydd a wnaed i gyflawni'r Amcanion Lles. Pan fo'n berthnasol, rhoddir targedau yn erbyn y mesuriadau perfformiad hyn i ddangos lefel y cyflawniad a ddymunir. Neilltuir statws CMG i fesuriadau perfformiad: GWYRDD pan fo'r canlyniad yn bwrw'r targed neu'n rhagori arno; MELYN pan fo'r canlyniad o fewn 10% o'r targed, a CHOCH pan fo'r canlyniad yn fwy na 10% o'r targed.
- **Cynnydd yn erbyn y Camau ym mhob Amcan Lles** - Gwnaeth y Cyngor gynnwys nifer o gamau yn y Cynllun Corfforaethol i helpu i gyflawni'r Amcanion Lles. Mae monitro cynnydd y Camau hyn yn rhoi dealltwriaeth o'r hyn a gyflawnwyd a lle mae angen gwneud mwy o waith.
- **Adroddiadau Archwilio** – Mae'r Cyngor yn destun nifer o archwiliadau gan gyrff rheoleiddio gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn (Addysg) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Mae eu canfyddiadau yn helpu'r Cyngor i asesu meysydd perfformiad cryf, yn ogystal â nodi meysydd sydd angen eu gwella.
- **Arolygon ac Adborth Dinasyddion** - Mae arolwg blynyddol Holi Caerdydd, yn ogystal â gwaith ymgynghori ac ymgysylltu mwy penodol, yn rhoi cyfle i ddinasyddion Caerdydd i rannu eu barn ar amrywiaeth eang o wasanaethau'r Cyngor. O'r arolwg hwn, gellir nodi meysydd lle ceir perfformiad cryf, ynghyd â'r meysydd hynny y mae trigolion Caerdydd yn teimlo bod angen i'r Cyngor eu gwella. Yn yr un modd, mae cwynion a chanmoliaethau'n ffynhonnell wybodaeth werthfawr o ran perfformiad, ac mae'r Adroddiad Lles Blynyddol yn cael ei ystyried gan y Cabinet ochr yn ochr â'r Adroddiad Cwynion Blynyddol.

- **Monitro Cyllid** – Adroddiad Alldro a Gwaith Monitro Cyllidebau'r Cyngor
- **Adborth gan Bwyllgorau Craffu a'r Pwyllgor Archwilio** - Mae'r Cyngor yn ymateb i faterion ac argymhellion sy'n cael eu codi gan y Pwyllgorau Craffu, sy'n helpu i lywio gwelliant mewn perfformiad.
- **Risg** - Mae Risgiau Corfforaethol a Chyfarwyddiaethau'r Cyngor yn cael eu hystyried yn rhan o ddarlun cynhwysfawr o berfformiad, ac mae'r Adroddiad Lles Blynyddol yn cael ei baratoi a'i ystyried gan y Cabinet ochr yn ochr ag Adroddiad Risg Corfforaethol Blynyddol y Cyngor. Drwy adolygu'r wybodaeth hon gall y Cyngor ddatblygu darlun cytbwys o daith y Cyngor tuag at welliant dros y flwyddyn.

73. Trwy ddefnyddio'r wybodaeth hon, gall y Cyngor nodi meysydd gwella a dathlu llwyddiant, a hefyd nodi meysydd lle nad oedd y perfformiad cystal, ac felly'r meysydd sydd angen mwy o sylw.

74. Er mwyn sicrhau yr ymgynghorir â staff, ac y cânt eu cynnwys yn y gwaith o wneud penderfyniadau, defnyddir nifer o sianeli cyfathrebu gan gynnwys Diweddariad y Prif Weithredwr, y Briff Craidd, negeseuon Gwybodaeth i Staff, yr App Staff, a DigiGov (system AD y Cyngor). Caiff y diwygiad i'r Strategaeth Ymgysylltu â Chyflogeion ei gyflwyno yn hydref 2020.

75. Mae'r gwaith o ymgynghori ar benderfyniadau drafft sy'n deillio o gynigion cyllidebol yn drwyadl ac mae'r effaith ar ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth yn ystyriaeth bwysig. Mae cynnwys dinasyddion wedi parhau i fod yn ddull pwysig o nodi a dylunio gwasanaethau i fodloni anghenion a disgwyliadau defnyddwyr gwasanaeth a dinasyddion yng Nghaerdydd yng nghyd-destun cyfyngiadau cyllidebol. Er mwyn sicrhau y gwneir penderfyniadau cadarn yn seiliedig ar brojectau, mae'r Cyngor wedi datblygu templed Achos Busnes gan ddefnyddio "Model Pum Achos" Swyddfa Masnach y Llywodraeth fel yr argymhellir gan Drysorlys EM i'w defnyddio gan gyrff y Sector Cyhoeddus.

76. Mae Strategaeth Cyllideb y Cyngor yn seiliedig ar ddull cyllidebu cynyddrannol lle caiff cyllidebau i raddau eu helaeth eu llywio gan flaenoriaethau corfforaethol a siâp gofynnol y sefydliad yn y dyfodol. Cafodd y themâu ar gyfer arbedion yn Strategaeth y Gyllideb ar gyfer 2020/21 eu categoreiddio fel Effeithlonrwydd, Cynhyrchu Incwm a Newid Gwasanaethau. Roedd y newid hwn yn ymateb er mwyn magu mwy o hyder wrth gyflawni arbedion gan ganolbwyntio ar arbedion effeithlonrwydd yn bennaf cyn dechrau Blwyddyn Ariannol 2020/21. Mae dechrau argyfwng Covid 19 wedi effeithio ar lwyddiant unrhyw gynigion o ran cynhyrchu incwm a bydd gwaith yn cael ei wneud i weithredu strategaethau amgen.

77. Penderfynodd Cardiff City Transport Services Ltd. (Bws Caerdydd), un o'r is-gwmnïau sydd ym mherchenogaeth lwyr y Cyngor, gyfethol dau gyfarwyddwr anweithredol annibynnol sydd â sgiliau profedig mewn gwasanaethau llywodraethu a thrafnidiaeth. Ym mis Ionawr 2020, cytunodd y Cyngor i ail-benodi'r ddau gyfarwyddwr anweithredol am 12 mis arall er mwyn sicrhau bod parhad wrth i'r Cwmni wynebu cyfnod heriol o'i flaen. Yn ogystal, penodwyd

Rheolwr Cyfarwyddwr newydd ym mis Ionawr 2020 er mwyn gweithio gyda'r Bwrdd a'r Cyngor i lywio'r Cwmni drwy'r cyfnod hwn.

78. Mae'r Cyngor wedi gweithio gyda'r Cwmni a'i Bwyllgor gweithredu er mwyn cynnig atebion i'r heriau sy'n wynebu'r cwmni (h.y. Cynllun Pensiwn, cynaliadwyedd busnes hirdymor, Covid 19). Roedd yr adroddiad ar y Gyllideb ym mis Chwefror 2020 yn cynnwys pecyn o gymorth ariannol, yn amodol ar adroddiad i'r Cyngor Llawn yn y dyfodol.

## E. Datblygu capasiti'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinwyr a'r unigolion sy'n rhan ohono.

79. Mae'r cyfrifoldebau gwneud penderfyniadau ac o ran awdurdod wedi eu nodi yn glir yng Nghyfansoddiad y Cyngor. Mae hyn yn disgrifio rolau a pherthnasoedd o ran gwneud penderfyniadau rhwng y Cyngor Llawn, y Cabinet, Pwyllgorau Craffu a Phwyllgorau Anweithredol eraill. Mae hefyd yn manylu ar benderfyniadau a ddirprwywyd i uwch swyddogion drwy'r haenau rheoli gwahanol.

80. Y Cabinet yw'r rhan o'r Cyngor sy'n gyfrifol am wneud rhan fwyaf o'r prif benderfyniadau. Mae'r Cabinet yn cynnwys yr Arweinydd a etholir gan y Cyngor a hyd at naw cynghorydd arall y mae'n eu hethol i'w cymeradwyo gan y Cyngor. Mae'n rhaid i'r Cabinet wneud penderfyniadau yn unol â pholisïau cyffredinol a chyllideb y Cyngor. Os yw'n dymuno gwneud penderfyniad nad yw'n rhan o'r gyllideb na'r fframwaith polisi, mae'n rhaid ei gyfeirio at y Cyngor llawn i wneud penderfyniad.

81. Ni newidiwyd strwythur uwch reolwyr y Cyngor ar gyfer 2019/20. Nod y Cyngor yw sicrhau bod gan Aelodau a Swyddogion y sgiliau, y wybodaeth a'r capasiti i gyflawni eu cyfrifoldebau yn effeithiol ac mae cydnabod y pwysigrwydd o gael pobl gymwys, sydd wedi'u hyfforddi'n dda. Mae pob Aelod newydd yn mynychu rhaglen sefydlu i'w cyflwyno i'r Cyngor a'i werthoedd, ei amcanion, ei bolisïau a'i weithdrefnau. Mae pob swyddog newydd yn cyflawni lefel sefydlu briodol sy'n cynnwys cyflawni cyfres o fodiwlau hyfforddiant e-ddysgu gorfodol. Mae gan bob modiwl hyfforddiant gorfodol ei ddyddiad targed ei hun y mae'n rhaid cydymffurfio'n llawn ag ef. Mae Rhaglen Rheolwyr Caerdydd fewnol yn arwyddocâd o ymrwymiad i sicrhau mwy o ddysgu a datblygu ar gyfer staff â chyfrifoldebau rheolwr llinell. Mae'r rhaglen yn parhau i gael ei chynnig yn ehangach ar draws y corff swyddogion heb y gofyniad i sefyll cymhwyster lefel 3 ffurfiol SARh.

82. Gwerthusir perfformiad yn bennaf trwy broses Perfformiad Personol y Cyngor, sy'n cynnig fframwaith i gyflogeion a rheolwyr drafod perfformiad ac ymddygiad yn y gweithle yn ogystal â nodi anghenion dysgu a datblygu. Mae'n galluogi cyflogeion i ddeall yn glir eu rolau, eu cyfrifoldebau a'r ymddygiad a ddisgwylir ganddynt a hefyd yn rhoi dealltwriaeth glir o sut mae eu swydd a'u hymdrechion yn cyfrannu at amcanion y Cyngor. Mae Adolygiadau Personol Aelodau hefyd

ar waith i'w helpu i ddiweddaru eu gwybodaeth a dysgu sgiliau newydd pan fo'n ofynnol, i fod yn fwy effeithiol wrth gefnogi eu cymunedau. Mae Academi Cyngor Caerdydd yn cynnig nifer o raglenni a chyrsiau dysgu a datblygu.

83. Mae iechyd a lles y cyflogeion yn flaenoriaeth yn Strategaeth Gweithlu Caerdydd. Mae'r Cyngor yn parhau i gefnogi'r Addewid 'Amser i Newid', mae wedi cael ei nodi'n Gyflogwr Hyderus gyda Phobl Anabl, wedi llofnodi'r Siarter Marw i Weithio ac wedi cyflawni Gwobr Arian y Safon Iechyd Corfforaethol. Yn ystod 2018/19 mae'r Cyngor wedi parhau i weithio tuag at gael ei gydnabod yn sefydliad sy'n Deall Dementia a chyflawni Gwobr Aur y Safon Iechyd Corfforaethol erbyn mis Mawrth 2020. Yn 2018/19 parhaodd y Cyngor i gyflawni Strategaeth Iechyd a Lles Cyflogeion sy'n cynnig fframwaith eang i fynd i'r afael â rhwystrau i les a nodi ffyrdd o wella lles cyflogeion.

84. Yn ystod 2019/20 cyhoeddodd y Cyngor Adroddiad Lles Blynyddol, yn dilyn cymeradwyaeth lawn gan y Cyngor, yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae hwn yn rhoi gwerthusiad cryno ôl-weithredol o berfformiad 2018/19 ac yn nodi meysydd ffocws wrth symud ymlaen. Mae hwn hefyd yn cyflawni'r cyfrifoldebau fel y'u nodir gan y Mesur Llywodraeth Leol. Caiff yr adroddiad Lles Blynyddol ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2019/20 ei gyhoeddi ym mis Medi 2020.

85. Ar ôl ei gyhoeddi, archwiliodd Swyddfa Archwilio Cymru Gynllun Gwella Cyngor Caerdydd yn unol ag adran 17 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Chod Ymarfer Archwilio Swyddfa Archwilio Cymru. Nododd y Dystysgrif Archwilio fod "y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau dan adran 15(6) i (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu'n ddigonol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru i gyflawni ei ddyletswyddau." Dan y Mesur, mae angen i'r Cyngor baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella sy'n disgrifio ei gynlluniau i gyflawni ei ddyletswyddau i wneud y canlynol:

- gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer ei swyddogaethau
- gwneud trefniadau i sicrhau bod ei amcanion gwella yn cael eu cyflawni; a
- gwneud trefniadau i arfer ei swyddogaethau fel bod unrhyw safon perfformiad a bennir gan Weinidogion Cymru yn cael ei bodloni.

## Dd. Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref.

86. Mae rheoli risg yn rhan ganolog o'r gwaith o wneud penderfyniadau strategol ac yn elfen allweddol o reoli busnes, cynigion cyllideb, strategaeth cyllideb, ac ystyriaethau rhaglenni a phrojectau. Cedwir Cofrestr Risgiau Corfforaethol ac fe'i hadolygir gan yr UDRh bob tri mis er mwyn sicrhau ei bod yn cynnwys y prif risgiau i'r weledigaeth, yr amcanion a'r blaenoriaethau corfforaethol. Mae Map Risgiau Corfforaethol wedi ei defnyddio trwy gydol 2019/20 i gynnig portread didwyll o statws y risgiau corfforaethol ac i gynorthwyo ymateb cymesur gan y tîm rheoli.

87. Parhaodd Hyrwyddwr Risgiau Aelodau enwebedig, Hyrwyddwr Risgiau Uwch Swyddogion a rhwydwaith o Hyrwyddwyr Risgiau Cyfarwyddiaethau i gefnogi'r Strategaeth a Pholisi Rheoli Risgiau. Mae'r broses wedi ei chynllunio i sicrhau perchnogaeth glir o'r risgiau a nodir, a adolygir ac a ddygir ymlaen yn systematig bob tri mis ariannol. Bu nifer sylweddol o risgiau newydd oherwydd y newid yn yr amgylchedd, Brexit, Newid yn yr Hinsawdd, Covid 19 sydd wedi arwain at yr angen i ailystyried pob risg o ganlyniad i'r ffactorau amgylcheddol hyn. Yn ogystal, mae nifer y risgiau gyda dangosyddion risg wedi cynyddu gan 64%.

88. Cynlluniwyd pum Pwyllgor Craffu sefydlog y Cyngor i gynorthwyo'r Cabinet i ddarparu gwasanaethau hygyrch, effeithlon ac effeithiol ar gyfer dinasyddion. Maent yn cwrdd bob mis i graffu cyn penderfynu, monitro ac adolygu polisïau a lansio ymholiadau manwl er mwyn helpu'r Cabinet i ddatblygu ac adolygu polisïau a gwasanaethau. Mae'r rhan fwyaf o'r argymhellion a gyflwynir gerbron y Cabinet yn dilyn Ymholiadau Craffu yn cael eu derbyn. Mae nifer o weithgareddau cydweithredol y Cyngor yn cael eu llywodraethu gan Gyd-bwyllgorau y gellir eu nodi ar wefan y Cyngor.

89. Mae gan y Cyngor drefniadau cadarn ar waith ar gyfer rheolaeth fewnol a nodir yn y tri datganiad a geir yn yr adroddiad hwn gan y Rheolwr Archwilio, y Pwyllgor Archwilio a'r Uwch Reolwyr yn y drefn honno.

90. Mae Fforwm Iechyd a Diogelwch y Cyngor yn cynnwys Aelodau Etholedig penodedig, Cynrychiolwyr Undebau a Swyddogion perthnasol y Cyngor, sy'n cyfarfod bob chwarter. Yn ystod 2019/20 adolygodd y Fforwm nifer o ddogfennau polisi a chanllawiau sy'n gysylltiedig ag iechyd a diogelwch mewn perthynas â Rheoli Asbestos, Trais yn y Gwaith ac Asesiadau Risg

91. Parhaodd y Fforwm hefyd i fonitro cydymffurfiaeth statudol â chynnal a chadw (gan barhau i ganolbwyntio ar ddisgyblaethau risg uchel), Rheoli Legionella, Diogelwch Tân, Diogelwch Trydanol a Diogelwch Nwy. Dechreuodd y Fforwm hefyd adolygu digwyddiadau treisgar yn cynnwys cyflogeion y Cyngor yn ogystal â'r camau a gymerwyd i leihau'r risg i gyflogeion gan gynnwys defnydd o sylfaen Ddata 'ALERT' y Cyngor. Parhaodd y Fforwm i adolygu damweiniau/digwyddiadau y mae angen rhoi gwybod amdanynt i RIDDOR, gyda gwybodaeth fanylach yn cael ei rhoi am ddamweiniau/digwyddiadau mewn ysgolion. Yn 19/20, adolygodd yr aelodau hefyd berfformiad y gwaith adeiladu a wnaed ar safleoedd ysgolion mewn perthynas â chydymffurfio ag iechyd a diogelwch gan amlygu meysydd i'w gwella i'w monitro yn y dyfodol.

G. **Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio er mwyn sicrhau atebolrwydd effeithiol.**

92. Nod y Cyngor yw bod adroddiadau ar gyfer y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill yn cael eu hysgrifennu mewn dull teg, cytbwys a dealladwy. Nod hyn yw sicrhau cydbwysedd rhwng rhoi gwybodaeth lawn a chyflawn i ddangos didwylledd clir heb fod yn rhy drwm neu'n or-gymhleth.

93. Un o nodau eraill y Cyngor yw sicrhau ei bod yn hawdd i'r Cyngor a'r cyhoedd gael gafael ar wybodaeth a'i defnyddio. Mae wedi mabwysiadu model cynllun cyhoeddi y Comisiynydd Gwybodaeth, sy'n nodi'r dosbarthiadau o wybodaeth a ddylai fod ar gael fel mater o drefn.

94. Mae Adroddiad Lles Blynyddol y Cyngor (yr Adroddiad Gwella Statudol gynt) yn arfarnu perfformiad, gan grynhoi canfyddiadau nifer o adroddiadau ar berfformiad, gan gynnwys mesurau ac arfarniadau cyflawniad corfforaethol yn erbyn Cynllun Lles Uchelgais Prifddinas a'r amcanion a'r gweithgareddau y mae'r Cyngor yn eu cyflwyno fel rhan o'r trefniadau Partneriaeth (BGC).

95. Asesiad o Lywodraethiant y Cyngor yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol mewn perthynas â 'Darparu Llywodraethiant Da mewn Llywodraeth Leol' fframwaith CIPFA / SOLACE, fel yr amlinellir yn yr Asesiad, y Broses a'r Grynodeb.

96. O ganlyniad i'r ymateb i argyfwng Covid 19, ffocws y Cyngor oedd sicrwydd o ran yr ymateb a'r effaith ar ddarparu gwasanaethau. Mae hyn wedi golygu na chwblhawyd Datganiadau Sicrwydd diwedd blwyddyn yr Uwch Reolwyr (SMAS) gyda'r Rheolwyr sy'n golygu bod rhaid dibynnu ar yr asesiadau hanner blwyddyn a'r trefniadau llywodraethu a roddwyd ar waith mewn ymateb i'r argyfwng. Ar y cyd, mae gan yr Uwch Dîm Rheoli gynllun gweithredu sy'n cynnwys materion llywodraethu sylweddol ac mae'r cynllun hwn yn datgan yn agored y prif broblemau llywodraethu sydd angen sylw yn dilyn yr adolygiad SMAS. Mae Cynllun Gweithredu'r DLIB wedi'i gynnwys yn yr adran ganlynol.

97. Cynhelir cyfarfod blynyddol y Cyngor ym mis Mai bob blwyddyn er mwyn sefydlu'r Pwyllgorau: eu maint, eu cylch gorchwyl a dosrannu seddau. Noda Cyfansoddiad y Cyngor gylch gorchwyl pob Pwyllgor a'r penderfyniadau y gall pob un o'r Pwyllgorau hynny eu cymryd, a chaiff ei adolygu'n rheolaidd gan Bwyllgor y Cyfansoddiad. Mae nifer o Bwyllgorau wedi eu penodi gan y Cyngor i ddarparu gwasanaethau rheoleiddio a chraffu ac maent yn paratoi adroddiadau blynyddol ar eu perfformiad a'u canfyddiadau.

98. Cyn darparu'r gwasanaethau trwy drydydd parti neu trwy drefniadau cydweithio, mae'r Tîm Gwasanaethau Cyfreithiol yn helpu cyfarwyddiaethau i sicrhau y caiff cyfrifoldebau ac atebolrwydd dros lywodraethu a rheoli risg eu dogfennu'n ddigonol. Mae'r strategaeth a'r polisi rheoli risg yn gofyn am drefniadau rheoli risg clir ym mha bynnag fodel darparu gwasanaethau a ddefnyddir.

99. Mae Cyngor Caerdydd yn croesawu herio gan gyfoedion, arolygiadau ac ymchwiliadau gan gyrff rheoleiddio fel dull o roi sicrwydd ynghylch darparu gwasanaethau neu fel dull o nodi cyfleoedd i wella.

### iii) Cynllun Gweithredu'r DLIB – Materion Llywodraethu Sylweddol

100. Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn berchen ar Gynllun Gweithredu ar gyfer materion Llywodraethu Sylweddol a chaiff ei adolygu a'i ddiweddaru'n ffurfiol ddwywaith y flwyddyn. Ystyriodd yr Uwch Dîm Rheoli'r ddau fater llywodraethu eang ar

gyfer y flwyddyn flaenorol a phenderfynodd fod angen eu cadw ar gyfer 2019/20 er mwyn sicrhau bod y camau a fwriadwyd yn cael eu hymwreiddio.

101. Roedd y camau gweithredu'n ymwneud ag 1) gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth gan gynnwys agweddau ar Genedlaethau'r Dyfodol a gwaith sicrwydd pellach mewn perthynas â phartneriaeth a llywodraethu cydweithredol, 2) Cydymffurfio, yn benodol o ran deall y bylchau yn y gydymffurfiaeth (cydymffurfio) â'r broses gorfforaethol i gyflawni asesiad mwy penodol.

102. Mae’r ddau fater a’r camau gweithredu cyfatebol wedi’u rhestru isod;

**Mater sylweddol**

Gwneud penderfyniadau gwybodus sy’n seiliedig ar dystiolaeth gan gynnwys agweddau ar Genedlaethau’r Dyfodol a gwaith sicrwydd pellach mewn perthynas â phartneriaethau a llywodraethu cydweithredol

**Camau Gweithredu**

- Adolygu’r broses o wneud penderfyniadau er mwyn sicrhau bod pob agwedd sy’n gysylltiedig â chydymffurfiaeth gyfreithiol a rheoleiddiol wedi’u hymwreiddio yn y prosesau i ategu’r gwaith o reoli risg.
- Cryfhau a datblygu ymhellach y wybodaeth cydymffurfio a ddarperir trwy Sicrwydd yr UDRH fel rhan o’r broses o wneud penderfyniadau a nodi pan fo angen gwneud gwelliannau fel sy’n briodol.
- Gweithredu'r Fframwaith Llywodraethu Partneriaethau a Chydweithredol er mwyn gwella'r sicrwydd ynghylch llywodraethu'r modelau darparu gwasanaethau hyn.
- Ymwreiddio a chymhwyso dealltwriaeth gyson o’r egwyddor Cenedlaethau’r Dyfodol a phum ffordd o weithio yn ei ymdrechion i wella canlyniadau ar gyfer ei ddinasyddion.

**Mater sylweddol**

Cydymffurfio, yn benodol wrth ddeall y bylchau o ran cydymffurfio, â’r broses gorfforaethol er mwyn cynnal asesiad â mwy o ffocws.

**Camau Gweithredu**

- Adolygu’r fframwaith cydymffurfio er mwyn sicrhau bod pob agwedd wedi’i adlewyrchu yng ‘Nghategori Cydymffurfio’ Datganiad Sicrwydd yr Uwch Reolwyr
- Rhoi’r broses o driongli Datganiadau Sicrwydd ar waith yn unol â Chod Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor a rhoi adborth trwy’r Broses Rheoli Perthynas er mwyn sicrhau bod yr holl agweddau cydymffurfio yn gynrychiadol

103. Ar ôl ystyried y tair barn gallwn gynnig sicrwydd rhesymol bod trefniadau llywodraethu Cyngor Caerdydd yn parhau'n addas at y diben. Bydd y camau a

nodwyd dan faterion sylweddol yn gwella ein trefniadau llywodraethu ymhellach.

**Materion Sylweddol - Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg (Y Gronfa Bensiwn).**

104. Yn ystod 2019/20 trosglwyddodd y Gronfa Bensiwn asedau gwerth £218m i Gronfa Cyfle Cyfartal y DU Partneriaeth Pensiwn Cymru. Cynllun Cytundebol Awdurdodedig (CCA) yw'r gronfa hon sy'n galluogi'r wyth awdurdod gweinyddu Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) yng Nghymru i gyfuno eu buddsoddiadau yn unol â gofynion Llywodraeth y DU. Nid yw'r trefniant llywodraethu ar gyfer y CCA wedi newid, a chaiff ei weithredu gan Link Fund Solutions gydag arolygiaeth yr wyth awdurdod trwy Gydbwyllgor Llywodraethu WPP sy'n cynnwys un aelod etholedig o bob awdurdod. Cefnogir y cydbwyllgor llywodraethu gan Weithgor Swyddogion sy'n cynnwys wyth Trysorydd Cronfeydd a Swyddog Buddsoddi.

105. Yn 2019/20 hefyd trosglwyddodd y Gronfa Bensiwn £235m i Draciwr Carbon Isel Ecwiti Byd-eang penodol gyda gostyngiad cyfatebol yn naliadau Ecwiti'r DU a'r Unol Daleithiau. I'r dyfodol bydd effaith materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu yn ddylanwad cynyddol sylweddol ar benderfyniadau buddsoddi'r Gronfa Bensiwn.

106. Ystyrir y gallai'r canlynol gael goblygiadau posibl ar gyfnodau ariannol yn y dyfodol ac mae'n werth eu trafod yn y datganiad hwn.

| ***Mater sylweddol*** | ***Sefyllfa Diwedd Blwyddyn 2019/20*** | ***Swyddog Cyfrifol*** |
|---|---|---|
| ***Partneriaeth Pensiynau Cymru – Cronfa Buddsoddi Cymru.***<br><br>*Caiff cronfeydd ariannol cyfunol pellach yn cael eu creu yn ystod 2020/21 yn benodol ar gyfer Incwm Sefydlog ac Asedau Marchnad Newydd.*<br><br>*Caiff cynigion ar gyfer pob cronfa eu cymeradwyo gan y cydbwyllgor llywodraethu WPP cyn eu cyflwyno i'r FCA.* | *Bydd Cronfa Bensiwn Caerdydd a'r Fro yn parhau i gymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu trefniadau cyfuno buddsoddiadau trwy Gydbwyllgor Llywodraethu WPP a'r Gweithgor Swyddogion.*<br><br>*Rhoddir gwybod am ddatblygiadau i Bwyllgor Pensiynau Caerdydd a Bro Morgannwg, y Panel Ymgynghorol Buddsoddi a'r Bwrdd Pensiynau Lleol yn rheolaidd* | *Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau* |

**Ardystio gan Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr**

**Y Cynghorydd Huw Thomas, Arweinydd Cyngor Caerdydd**
**Dyddiad:**

**Paul Orders, Prif Weithredwr**
**Dyddiad:**